# Proffil Sgiliau Digidol

## Cyflogwyr




## Gwasanaethau Genetig Cogent Breeding UK

### Cwmni

Cogent Breeding UK

### Maint y Cwmni

250 o weithwyr

### Sefydlwyd

1995

### Lle mae'r cwmni wedi'i leoli

Wedi'i leoli yng Nghaer ond mae'n gweithredu ledled y DU ac yn rhyngwladol

### Enghreifftiau o rolau nodweddiadol i raddedigion

Technegydd Labordy
Ymgynghorwyr Gwerthu a Geneteg
Cynorthwyydd Gweinyddol

### Sgiliau Digidol Hanfodol sy'n Werthfawr yn ein barn ni

**Hyfedredd Digidol a Datrys Problemau** — Hyfedredd gyda meddalwedd cyfrifiadurol, sgiliau datrys problemau sylfaenol ar gyfer y cyfrifiaduron sy'n rhedeg ein peiriannau didoli a dealltwriaeth o fecaneg gyfrifiadurol

**Llythrennedd Digidol** — Gallu defnyddio Excel ar gyfer rheoli data a dadansoddi samplau data a chwsmeriaid

**Cyfathrebu Digidol** — Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol trwy e-bost a llwyfannau digidol eraill

### Meysydd Cyffredin i weithio arnynt

"Efallai na fydd gan lawer o raddedigion, yn enwedig y rhai o gefndiroedd ymarferol megis amaethyddiaeth neu wyddor anifeiliaid, brofiad gydag offer rheoli data fel Excel. Mae'n ymddangos bod gan raddedigion sy'n gweithio yn y labordai fwy o brofiad data, felly gall hwn fod yn faes sy'n cael ei anwybyddu yn y graddau mwy ymarferol."

### O ble rydyn ni'n recriwtio

"Rydym wedi recriwtio graddedigion o ystod amrywiol iawn o raddau megis cemeg, gwyddoniaeth fforensig, microbioleg a hyd yn oed cadwraeth bywyd gwyllt. Rydym yn agored i unrhyw raddedigion cyhyd â bod gennych y sgiliau a'r agwedd gywir, diddordeb yn yr hyn rydych yn ei wneud, parodrwydd i ddysgu a sylw brwd i fanylion."

### Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano yn ein gweithwyr

"Mae ein tîm yn cael ei yrru gan angerdd cyfunol dros amaethyddiaeth a dealltwriaeth ddofn o'r diwydiant, ac rydym yn chwilio am yr un peth yn ein recriwtiaid newydd. Rydym yn chwilio am unigolion brwdfrydig sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd craidd, sy'n onest ac ag ymarweddiad cadarnhaol. Os ydych chi'n hyderus, yn hyddysg am ddata, ac yn awyddus i ddysgu, rydyn ni eisiau i chi fod ar ein tîm ni."

Gwefan Cogent UK